

Data Cyfrifiad 2011 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Cymwysterau a myfyrwyr

Pob person	Sir Gaerfyrddin		Cymru		Cymru a Lloegr	
Pob person 16 oed a throsodd	150,763		2,507,160		45,496,780	
Cymwysterau						
Dim cymhwyster	40,334	26.8%	650,517	25.9%	10,307,327	22.7%
Lefel uchaf o gymhwyster: cymwysterau Lefel 1	19,683	13.1%	332,943	13.3%	6,047,384	13.3%
Lefel uchaf o gymhwyster: cymwysterau Lefel 2	24,748	16.4%	393,819	15.7%	6,938,433	15.3%
Lefel uchaf o gymhwyster: prentisiaeth	6,514	4.3%	98,843	3.9%	1,631,777	3.6%
Lefel uchaf o gymhwyster: cymwysterau Lefel 3	16,832	11.2%	308,171	12.3%	5,617,802	12.3%
Lefel uchaf o gymhwyster: cymwysterau Lefel 4 ac uwch	36,036	23.9%	614,116	24.5%	12,383,477	27.2%
Lefel uchaf o gymhwyster: cymwysterau eraill	6,616	4.4%	108,751	4.3%	2,570,580	5.7%
Plant ysgol a myfyrwyr mewn addysg amser llawn						
Plant ysgol a myfyrwyr mewn addysg amser llawn: 16-17 oed	4,059	2.7%	67,220	-	1,230,368	-
Plant ysgol a myfyrwyr mewn addysg amser llawn: 18 oed a throsodd	5,025	3.3%	136,804	-	2,485,001	-
Myfyrwyr mewn addysg amser llawn (18-74 oed)						
Yn weithgar yn economaidd: mewn gwaith	1,930	1.3%	44,886	32.9%	836,788	33.8%
Yn weithgar yn economaidd: yn ddi-waith	336	0.2%	11,238	8.2%	219,756	8.9%
Yn anweithgar yn economaidd	2,736	1.8%	80,220	58.8%	1,420,951	57.4%

Diffiniadau

Yn weithgar yn economaidd:

Nodir bod unigolyn rhwng 16 a 74 oed yn weithgar yn economaidd os oedd, yr wythnos cyn y cyfrifiad:

- yn gweithio, fel cyflogai neu'n hunangyflogedig
- ddim yn gweithio, ond yn chwilio am waith ac yn barod i ddechrau gweithio ymhen pythefnos, neu
- ddim yn gweithio, ond yn aros i ddechrau swydd a gafwyd eisoes ac sydd ar gael.

Caiff myfyrwyr mewn addysg amser llawn sy'n bodloni unrhyw un o'r meini prawf hyn eu dosbarthu'n weithgar yn economaidd a chânt eu cyfrif ar wahân yng nghategori gweithgar yn economaidd 'Myfyriwr mewn addysg amser llawn' - ni chânt eu cynnwys mewn unrhyw gategori arall fel cyflogaion neu bobl ddi-waith.

Yn anweithgar yn economaidd:

Nodir bod unigolyn rhwng 16 a 74 oed yn anweithgar yn economaidd os nad oedd, yn yr wythnos cyn y cyfrifiad, yn gweithio ond roedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael ei ddsbarthu'n unigolyn 'Di-waith'. Mae hyn yn cynnwys unigolyn a oedd yn chwilio am waith ond nad oedd ar gael i ddechrau gweithio ymhen pythefnos, yn ogystal ag unrhyw un nad oedd yn chwilio am waith, neu nad oedd yn gallu gweithio - er enghraifft wedi ymddeol, yn gofalu am y cartref/teulu, yn sâl neu'n anabl yn barhaol. Caiff myfyrwyr sy'n bodloni unrhyw un o'r meini prawf hyn eu dosbarthu'n anweithgar yn economaidd hefyd. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu mewn addysg amser llawn ac nid yw'n cynnwys myfyrwyr a oedd yn gweithio neu'n weithgar yn economaidd mewn rhyw ffordd arall.

Gweithiwr cyflogedig (Yn gweithio):

Nodir bod unigolyn rhwng 16 a 74 oed yn gyflogedig (neu'n gweithio) os oedd, yn yr wythnos cyn y cyfrifiad, yn gwneud un awr o waith â thâl o leiaf, naill ai fel gweithiwr cyflogedig neu'n hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys gwaith achlysurol neu dros dro, ar gynllun hyfforddi a noddir gan y llywodraeth, yn gweithio am dâl neu'n ddi-dâl i'ch busnes eich hun neu i fusnes eich teulu, bod i ffordd o'r gwaith yn sâl, ar gyfnod mamolaeth, ar wyliau neu fod unigolyn wedi'i gadw dros dro o'i waith.

Myfyriwr amser llawn:

Unigolyn o unrhyw oed sydd wedi nodi ei fod yn blentyn ysgol neu'n fyfyrwr mewn addysg amser llawn yw myfyriwr amser llawn. Caiff plant ysgol a myfyrwyr mewn addysg llawn amser sy'n astudio oddi cartref eu trin fel petaent yn preswyllo yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor fel arfer.

Lefel uchaf o gymhwyster:

Mae'r lefel uchaf o gymhwyster yn deillio o'r cwestiwn sy'n gofyn i bobl nodi pob math o gymhwyster sydd ganddynt. Gofynnwyd i bobl hefyd a oedd ganddynt gymwysterau tramor ac i nodi'r cymhwyster cyfatebol agosaf.

Roedd 12 o opsiynau ymateb (ynghyd â 'dim cymwysterau') yn cwmpasu cymwysterau proffesiynol a galwedigaethol, ac amrywiaeth o gymwysterau academaidd.

Caiff y rhain eu dosbarthu yn bum categori ar gyfer y lefel uchaf o gymhwyster, ynghyd â chategori ar gyfer dim cymwysterau ac un ar gyfer cymwysterau eraill (sy'n cynnwys cymwysterau galwedigaethol neu gymwysterau cysylltiedig â gwaith, a chymwysterau tramor lle na chafodd cymhwyster cyfatebol ei nodi):

Dim Cymwysterau: Dim cymwysterau academaidd na phroffesiynol

Cymwysterau Lefel 1: 1-4 Lefel O/TAU/TGAU (unrhyw radd), Lefel Mynediad, Diploma Sylfaen, NVQ lefel 1, GNVQ Sylfaen, Sgiliau Sylfaenol/Allweddol

Cymwysterau Lefel 2: 5+ Lefel O (wedi pasio)/TAU (Gradd 1)/TGAU (Graddau A*-C), Tystysgrif Ysgol, 1 Lefel A/ 2-3 Lefel AS/VCE, Diploma Canolradd/Uwch, Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru, NVQ lefel 2, GNVQ Canolradd, City and Guilds Craft, Diploma Cyntaf/Cyffredinol BTEC, Diploma RSA Prentisiaeth

Cymwysterau Lefel 3: 2+ Lefel A/VCE, 4+ Lefel AS, Tystysgrif Ysgol Uwch, Diploma Uwch, Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru, NVQ Lefel 3; GNVQ Uwch, Crefft Uwch City and Guilds, ONC, OND, BTEC Cenedlaethol, Diploma Uwch RSA

Cymwysterau Lefel 4+: Gradd (er enghraifft BA, BSc), Gradd Uwch (er enghraifft MA, PhD, TAR), NVQ Lefel 4-5, HNC, HND, Diploma Uwch RSA, Lefel Uwch BTEC, Gradd sylfaen (Gogledd Iwerddon), Cymwysterau proffesiynol (er enghraifft addysgu, nyrsio, cyfrifyddiaeth)

Cymwysterau eraill: Cymwysterau Galwedigaethol/Cysylltiedig â Gwaith, Cymwysterau Tramor (Heb eu nodi/lefel yn anhysbys).

Di-waith:

Caiff unigolyn rhwng 16 a 74 oed ei ddsbarthu'n ddi-waith os nad yw'n gweithio, ei fod ar gael i ddechrau gweithio yn y pythefnos nesaf, a'i fod naill ai wedi chwilio am waith yn y pedair wythnos ddiwethaf neu'n aros i ddechrau swydd newydd.